# Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
## Cofnodion cyfarfod Dydd Mawrth 23 a Dydd Mercher 24 Tachwedd 2021

**Aelodau:**

| | |
|---|---|
| Lindsay Foyster | Cadeirydd ac aelod anweithredol |
| Adrian Crompton | Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Alison Gerrard | Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Taliadau ac Adnoddau Dynol |
| Adam Marshall | Aelod-gyflogai etholedig |
| Anne Beegan | Aelod-gyflogai etholedig |
| David Francis | Aelod anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol |
| Elinor Gwynn | Aelod anweithredol |
| **Ymddiheuriadau:** | |
| Ian Rees | Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| Kevin Thomas | Aelod-gyflogai apwyntiedig a Chyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol (CGGC) |
| **Hefyd yn bresennol** | |
| Anne-Louise Clark | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid (CGCN) |
| Ann-Marie Harkin | Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio (CGGA) |
| Katherine Drysdale | Arbenigwr y Gyfraith a Moeseg (cofnodion) |
| Martin Peters | Pennaeth Cyfraith a Moeseg, a Swyddog Diogelu Data (SDD) (Eitem 11) |
| Matthew Hockridge | Pennaeth Cynllunio ac Adrodd (eitemau 3, 4 a 13) |
| Nicola Evans | Pennaeth Cyllid (eitem 13) |
| Siobhan Cole | Pennaeth Adnoddau Dynol (eitem 10) |
| **Arsyllwyr** | |
| Hepzibah Hill | Hyfforddai Archwilio (ac eithrio eitemau 5 ac 16) |
| Jennie Morris | Uwch Archwilydd ac aelod o banel y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol (TAG) (24 Tachwedd 2021, ac eithrio eitemau 5 ac 16) |
| Rachel Brown | Dadansoddwr Data ac aelod o banel y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol (23 Tachwedd 2021) |

| Eitem | Agenda |
|---|---|
| 1. | Croeso'r Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb |
| 2. | Datganiadau o ddiddordeb |
| 3. | Adroddiad cyflym arolwg staff. |
| 4. | Amcanion cydraddoldeb strategol drafft 2022-2026 |
| 5. | Adolygiad o'r cofnodion: Cyfarfod y Bwrdd 21 a 22 Medi 2021; 18 Hydref 2021 |
| 6. | Adolygu olrheiniwr gweithredu |
| 7. | Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Archwilydd Cyffredinol |
| 8. | Diweddariad gan y Cadeirydd |
| 9. | Adroddiad gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol 16 Tachwedd 2021 |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod Dydd Mawrth 23 a Dydd Mercher 24 Tachwedd 2021**

| Eitem | Agenda |
|---|---|
| 10. | Cynllun cyflawni strategaeth y gweithlu: adolygiad blynyddol |
| 11. | Adroddiad blynyddol y Swyddog Diogelu Data |
| 12. | Effeithiolrwydd y Bwrdd: cynllun gweithredu |
| 13. | Adrodd ar berfformiad, gan gynnwys yr adroddiad cyllid, cofrestr risg strategol a pherfformiad chwarter dau |
| 14. | Adolygiad o'r flaenraglen waith |
| 15. | Adolygiad o'r cyfarfod |
| 16. | Unrhyw Fater Arall |
| 17. | Dyddiad y cyfarfod nesaf 26 a 27 Ionawr 2022 (I'w gadarnhau) |

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog** | | |
| **1.** | **Croeso'r Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| 1.1 | Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a'r rhai oedd yn bresennol. Nododd ymddiheuriadau gan Ian Rees a Kevin Thomas ac y byddai gan y Bwrdd, gyda mwyafrif o aelodau anweithredol yn bresennol, gworwm yn eu habsenoldeb. | |
| 1.2 | Byddai David Francis yn ysgrifennu blog y cyfarfod, gyda mewnbwn gan y CGCN a fyddai'n cyfleu'r pum neges allweddol o'r cyfarfod. | DF<br>ALC |
| **2.** | **Datganiadau o ddiddordeb** | |
| 2.1 | Byddai'r arsyllwyr staff yn gadael y cyfarfod ar gyfer eitem 5 (adolygiad o'r cofnodion) ac eitem 16 (unrhyw fater arall) a fyddai'n cael eu cymryd yn breifat. | |
| **3.** | **Amcanion Cydraddoldeb Strategol Drafft 2022-2026** | |
| 3.1 | Cyflwynodd y CGCN bapur yn amlinellu'r broses ar gyfer datblygu'r amcanion cydraddoldeb strategol drafft ar gyfer 2022-26 a fyddai'n sail i'r strategaeth bum mlynedd. | |
| 3.2 | Eglurodd y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd bod y TAG, wrth ddatblygu'r amcanion drafft ar gyfer 2022-26, wedi gwneud y canlynol:<br>• adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion cydraddoldeb presennol, a oedd yn canolbwyntio ar gydymffurfio;<br>• ystyried sut y gallai amcanion cydraddoldeb hyblyg, blaengar fod yn sail i gyflawni nodau'r strategaeth bum mlynedd; a<br>• chyrraedd pum amcan drafft lefel uchel a fyddai'n cael eu llywio ymhellach gan ymatebion i'r ymgynghoriad.<br>Nododd y Bwrdd y câi manylion lefel yr uchelgais ar gyfer yr amcanion, sut y câi'r amcanion eu cyflawni a sut y câi llwyddiant ei fesur i gyd eu datblygu i'w cynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a oedd i'w gyhoeddi yn 2022. | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod Dydd Mawrth 23 a Dydd Mercher 24 Tachwedd 2021**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | Cytunwyd y byddai cyfle pellach i gael trafodaeth strategol yn y Bwrdd ar lefel yr uchelgais / sut y byddai llwyddiant yn edrych o ran yr amcanion mewn cyfarfod yn y dyfodol. | EDCC/ HoP&R |
| 3.3 | Bu'r Bwrdd yn trafod:<br>• y broses ar gyfer datblygu'r amcanion hyd yma, gan nodi nad oedd aelod cyswllt y Bwrdd a'r grwpiau buddiant staff wedi cymryd rhan mewn datblygu'r amcanion arfaethedig eto;<br>• geiriad yr amcanion ac a ddylai fod yn fwy penodol a bod yn gyfyngedig o ran amser mewn ffordd oedd yn berthnasol i gyfnod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol;<br>• iaith a naws yr ymgynghoriad, gan gofio bod yr amcanion wedi'u datblygu gan grŵp homogenaidd ac y byddai croeso mawr i fewnbwn mewnol ac i fewnbwn i'r ymgynghoriad allanol; ac<br>• a oedd angen amcan ar wahân yn ymwneud ag archwiliad ôl-covid. | |
| 3.4 | Roedd y Bwrdd o'r farn y byddai'r amcanion drafft a'r ddogfen ymgynghori yn elwa o gael eu datblygu ymhellach. Byddai'r Pennaeth Cynllunio ac Adrodd yn ymgymryd â hyn, gan ystyried:<br>• trafod yr amcanion drafft gyda PAWB;<br>• ymgysylltu'n gynnar â chyswllt y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; a<br>• thrafodaeth ag Archwilydd Cyffredinol Cymru (AGW), y Cadeirydd ac aelod cyswllt y Bwrdd dros gydraddoldeb cyn cynnal ymgysylltiad mewnol ehangach ac ymgynghoriad allanol ym mis Ionawr 2022. | MH |
| 3.5 | Nododd y Bwrdd y byddai'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei gyflwyno iddo i'w gymeradwyo ym mis Mawrth 2022 cyn ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2022. | |
| **4.** | **Arolwg Staff: Adroddiad Cyflym** | |
| 4.1 | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid (CGCN) bapur yn amlinellu canlyniadau arolwg y staff a'r themâu a gododd o'r adroddiad sylwadau, oedd wedi ei roi i'r aelodau cyn y cyfarfod. | |
| 4.2 | Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at y canlynol:<br>• y gostyngiad cyffredinol mewn sgorau cadarnhaol, a gostyngiadau sylweddol mewn meysydd o bwys gan gynnwys cyfeiriad a ffocws sefydliadol, llwyth gwaith, adnoddau, cydnabyddiaeth ariannol ac arweinyddiaeth;<br>• cyd-destun yr arolwg, gan gynnwys yr adolygiad teithio a chynhaliaeth ac effaith barhaus y pandemig;<br>• er gwaethaf y gostyngiad, roedd llawer o sgorau'n parhau'n gryf ac roedd rhai meysydd i'w gwella; a'r<br>• gwaith perthnasol sydd ar y gweill a fyddai'n dechrau mynd i'r afael â rhai o'r materion oedd yn dod i'r amlwg, megis datblygu'r strategaeth bum mlynedd, yr adolygiad teithio a chynhaliaeth a chynllunio'r gweithlu/adnoddau. | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod Dydd Mawrth 23 a Dydd Mercher 24 Tachwedd 2021**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 4.3 | Bu’r Bwrdd yn trafod yn fanwl ganlyniadau'r arolwg a'r themâu a gododd o'r adroddiad sylwadau. Roedd y Bwrdd yn cydnabod:<br>• er bod yr adolygiad teithio a chynhaliaeth a'r pandemig heb amheuaeth wedi dylanwadu ar y canlyniadau, nad y rhain oedd yr unig ffactorau a oedd yn dylanwadu ar farn staff; ac<br>• y byddai'n bwysig darparu ymateb cyflym a datblygu camau gweithredu clir i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd. | |
| 4.4 | Bu’r Bwrdd yn ystyried:<br>• a oedd yn darparu'r lefel gywir o her o ran lefelau adnoddau a strwythurau;<br>• sut y gellid gwella ymgysylltiad staff drwy well cyfathrebu a chynnwys staff;<br>• y canfyddiadau o ddiffyg ffocws sefydliadol ar archwilio, a sut y gellid mynd i'r afael â hynny fel ei bod yn amlwg bod archwilio a chyflawni archwiliad yn ganolog i bob gweithgaredd;<br>• diwylliant sefydliadol a sut i wella ymddiriedaeth rhwng, a pharch at, wahanol feysydd gweithredu a'u cyfraniadau, yn ogystal â mwy o ymdeimlad o werth i staff ac ymhlith staff;<br>• yr awydd i gydweithio a gweithio wyneb yn wyneb, a’r goblygiadau ar gyfer ffyrdd o weithio yn y dyfodol; ac<br>• arweinyddiaeth a chyfrifoldebau rheolwr llinell, gallu a chapasiti i sicrhau newid. | |
| 4.5 | Bu’r Bwrdd yn trafod ffurf yr arolwg yn fyr a'r ffurf yn y dyfodol ar gyfer casglu barn y staff. Nododd y Bwrdd fod defnyddio arolwg yn gwneud meincnodi yn bosibl yn fewnol ac yn allanol, ond anogodd y rheolwyr i ystyried:<br>• a ellid adolygu geiriad yr arolwg i roi eglurder i ddisgrifiadau o arweinyddiaeth a rheolaeth; ac<br>• a ellid darparu cyfleoedd hefyd i roi adborth cwmpasog. | |
| 4.6 | Nododd y Bwrdd y risgiau oedd yn codi o'r arolwg, ac oedd yn gysylltiedig ag ef, y byddai'n eu hystyried yn nes ymlaen yn y cyfarfod fel rhan o adolygiad y gofrestr risg strategol. | |
| 4.7 | Cadarnhaodd y CGCN fod y camau nesaf yn cynnwys:<br>• cynllunio i gyhoeddi'r adroddiad sylwadau;<br>• datblygu cyfathrebu mewnol i ymateb i'r meysydd allweddol oedd yn codi o'r arolwg; ac<br>• ystyried y camau gweithredu oedd eu hangen i fynd i'r afael ag allbynnau'r arolwg. | |
| 4.8 | Croesawodd y Bwrdd y cyfle i drafod y materion a'u hachosion sylfaenol yn agored, ac anogodd y TAG i ystyried sut y gallai'r Bwrdd gyfrannu at fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd. | TAG |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod Dydd Mawrth 23 a Dydd Mercher 24 Tachwedd 2021**

| | | |
|---|---|---|
| **5.** | **Adolygiad o'r cofnodion: Cyfarfod y Bwrdd 21 a 22 Medi 2021; 18 Hydref 2021** | |
| 5.1 | Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion ei gyfarfod ar 21 a 22 Medi 2021 fel cofnod cywir. | |
| 5.2 | Paragraff 9.3 (adolygiad llywodraethu): nododd y Bwrdd fod y grŵp llywodraethu yn bwriadu cyfarfod i ddatblygu'r egwyddorion gyda golwg ar roi diweddariad i'r Bwrdd ym mis Ionawr. | Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol |
| 5.3 | Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion ei gyfarfod ar 18 Hydref 2021 fel cofnod cywir a chytunwyd y câi'r cofnod, oedd yn ymwneud â'r adolygiad teithio a chynhaliaeth, ei dynnu allan o fersiwn gyhoeddedig y cofnodion gan fod yr eitem hon wedi'i chymryd yn breifat. | KD |
| **6.** | **Adolygu olrheiniwr gweithredu** | |
| 6.1 | Bu'r Bwrdd yn trafod y materion a gododd o'i gyfarfodydd blaenorol gan ddefnyddio'r olrheiniwr gweithredu y byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn ei ddiweddaru. | |
| 6.2 | WAOB(20)/106 (rhaglen waith ar gyfer sganio'r gorwel): nododd y Bwrdd fod y cam gweithredu wedi'i gofnodi fel pe bai wedi cael ei gyflawni, ond na thrafodwyd cynigion ar gyfer diweddariadau sganio'r gorwel gyda'r Bwrdd. Cytunodd y Bwrdd y câi diweddariadau sganio'r gorwel eu hymgorffori ddwywaith y flwyddyn yn y rhaglen waith ar gyfer y cyfarfodydd strategol yn (neu o gwmpas) Gorffennaf a Rhagfyr. | KD |
| 6.3 | WAOB(20)/110 (Cynllunio ariannol): roedd y Bwrdd yn awyddus i sicrhau bod yr egwyddorion ar gyfer defnyddio unrhyw warged a ragwelid yn cael eu datblygu cyn cyfarfod mis Ionawr, gan nodi bod y cynnig teithio a chynhaliaeth yn debygol o fod yn berthnasol. Byddai'r Prif Weithredwr yn dilyn hyn gyda'r CGGC a'r Pennaeth Cyllid. | AC/KT |
| 6.4 | WAOB(21)/001 (datblygu cynaliadwy): cam gweithredu i'w nodi fel ar y gweill hyd nes cwblhau'r elfen fapio. | KD |
| 6.5 | WAOB(20)/111 (trefniadau cynorthwyo'r bwrdd): byddai'r dyddiad targed yn cael ei ymestyn hyd nes cwblhau'r ailstrwythuro perthnasol. | KD |
| 6.6 | Roedd y Bwrdd yn awyddus i sicrhau, lle bo'n briodol, bod gweithgaredd ar yr olrheiniwr yn cael ei ystyried gan y Bwrdd cyn cau cam gweithredu. | |
| **7.** | **Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Archwilydd Cyffredinol** | |
| 7.1 | Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr ei adroddiad a thynnodd sylw at y canlynol:<br>Penodiadau Panel CIPFA: oedd yn rhoi cyfle i staff Archwilio Cymru ymwneud yn agos ag arfer archwilio yn y dyfodol a dylanwadu arno.<br>Covid / dychwelyd i'r swyddfeydd: gyda defnydd y swyddfa ar lefelau isel, a phe bai canllawiau Llywodraeth Cymru yn cael eu llacio ymhellach, câi ystyriaeth ei rhoi i fynnu rhywfaint o bresenoldeb yn y swyddfa er mwyn i'r staff ailgysylltu â'u timau.<br>Strategaeth bum mlynedd: byddai'r TAG yn croesawu cyfranogiad y Bwrdd yn y broses ymgysylltu. | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod Dydd Mawrth 23 a Dydd Mercher 24 Tachwedd 2021**

| | | |
|---|---|---|
| | Agwedd at sero net: cynlluniwyd dull pwyllog i reoli adnoddau'n fewnol ac elwa ar brofiadau a dysgu oddi wrth sefydliadau sy'n rhwym i'r ddyletswydd.<br>Enwebiadau gwobrau AD: cydnabod cyflawniad y tîm a'r unigolion dan sylw. | |
| 7.2 | Roedd y Bwrdd yn awyddus i ddeall y rhesymau dros lefel isel y defnydd o’r swyddfa ar hyn o bryd a sut y gellid datblygu amgylchedd y swyddfa yn briodol i gefnogi gwaith tîm, cydweithio a chyflawni’n effeithiol. Nododd y Bwrdd y canlynol:<br>• nid yn unig yr oedd amgylchedd y swyddfa wedi newid ond hefyd arferion a dulliau unigolion;<br>• byddai ymagwedd hyblyg yn cael ei mabwysiadu, gan gydbwyso anghenion sefydliadol a dewisiadau unigol; ac<br>• roedd rhai cyfleusterau fideo-gynadledda bellach ar gael i gefnogi cyfarfodydd hybrid. | |
| 7.3 | Fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:<br>• trafod yr ymagwedd arfaethedig at sero net a chawsant eu sicrhau y byddai mabwysiadu ymagwedd gymesur a phwyllog yn caniatáu dysgu wrth i ofynion y ddyletswydd ymsefydlu;<br>• cynnig ei longyfarchiadau ar benodiadau CIPFA a'r enwebiadau ar gyfer gwobrau AD; a<br>• chadarnhawyd y byddai’r aelodau'n hapus i gymryd rhan yn y broses ymgysylltu ar gyfer y strategaeth bum mlynedd. | |
| 7.4 | Nododd y Bwrdd yr Adroddiad. | |
| **8.** | **Diweddariad gan y Cadeirydd** | |
| 8.1 | Cyflwynodd y Cadeirydd ei diweddariad ysgrifenedig i'r Bwrdd ac anogodd yr aelodau i gymryd rhan yn y gweithgaredd anffurfiol cyn y Nadolig oedd wedi cael ei gynllunio ar draws y sefydliad. | Pawb |
| 8.2 | Nododd y Bwrdd Ddiweddariad y Cadeirydd. | |
| **9.** | **Adroddiad gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol 16 Tachwedd 2021** | |
| 9.1 | Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol, a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, a thynnodd sylw at yr argymhellion er mwyn i'r Bwrdd eu cymeradwyo. Awgrymodd hi y dylid ystyried yr argymhelliad yn ymwneud â strategaeth y gweithlu fel rhan o'r eitem honno. | |
| 9.2 | Fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor, cymeradwyodd y Bwrdd:<br>• y polisi salwch a lles diwygiedig, yn amodol ar fân newidiadau i adlewyrchu trafodaethau’r Pwyllgor; ac<br>• awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac AD i gysylltu â'r tîm AD i gytuno ar eiriad terfynol y polisi. | |
| 9.3 | Nododd y Bwrdd gyngor y Pwyllgor mewn perthynas â’r cynllun gwerthuso swyddi a chymeradwyodd gynnig y TAG i ddilyn dewis 2, a amlinellwyd ym mhapur cyfeirnod RHR(20)-21-009, i nodi a gweithredu | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod Dydd Mawrth 23 a Dydd Mercher 24 Tachwedd 2021**

| | | |
|---|---|---|
| | newidiadau i'r prosesau blaenoriaeth a llywodraethu er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r system bresennol. | |
| 9.4 | Bu'r Bwrdd yn ystyried yn ofalus y cynnig ar gyfer rolau a chyfrifoldebau cyfarwyddwr y Gwasanaethau Archwilio, gan nodi y gallai hyn ddenu beirniadaeth fewnol oherwydd bod cyfarwyddwr archwilio perfformiad wedi ymadael o'i wirfodd yn gynharach yn y flwyddyn. Sicrhaodd y rheolwyr y Bwrdd:<br>• bod telerau'r achos busnes ar gyfer yr ymadawiad hwnnw, gan gynnwys yr ad-daliad ariannol o adael y rôl yn wag am gyfnod o chwe mis, wedi'u bodloni; a<br>• bod y rôl newydd yn ddigon gwahanol i'r rôl flaenorol ac wedi'i bwriadu i ddarparu dull mwy integredig, trawsbynciol. | |
| 9.5 | Yn amodol ar roi cyfrifiad i'r Bwrdd i ddangos yr ad-daliad ariannol ar gyfer ymadawiad gwirfoddol y cyfarwyddwr archwilio perfformiad, roedd y Bwrdd yn cymeradwyo cynnig y TAG i wneud y canlynol:<br>• cynyddu nifer Cyfarwyddwyr cymwys cyfrifon CCAB1 o 4 i 5 CALI; a<br>• recriwtio trydydd Cyfarwyddwr Archwilio Perfformiad. | Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio |
| 9.6 | Eglurodd Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol fod y Pwyllgor wedi ystyried capasiti AD eto, gan fod gwaith y tîm yn sylweddol o ran hyrwyddo cyflawni. Cytunodd y Bwrdd y byddai'n ystyried y risg mewn perthynas â chapasiti AD fel rhan o'i adolygiad o'r gofrestr risg. | |
| 9.7 | Fel arall, nododd y Bwrdd yr Adroddiad. | |
| **10.** | **Cynllun Cyflawni Strategaeth y Gweithlu: Adolygiad Blynyddol** | |
| 10.1 | Cyflwynodd Pennaeth AD bapur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar gynnydd yn erbyn cynllun cyflawni strategaeth y gweithlu gan grynhoi'r cynnydd hyd yma. Tynnodd sylw'r Bwrdd at y meysydd a nodwyd yn ambr ac eglurodd y cynnig i'r cynllun cyflawni gael ei adolygu yn gynnar yn 2022 er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r strategaeth bum mlynedd a bod ei weithgareddau'n parhau i fod yn berthnasol. | |
| 10.2 | Fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol, cymeradwyodd y Bwrdd y cynnig ar gyfer adolygu ac ailddatblygu strategaeth y gweithlu yn gynnar yn 2022, gan ganolbwyntio ar y cynllun cyflawni, i gyd-fynd â'r strategaeth 5 mlynedd ehangach a'i hadlewyrchu. | |
| **11.** | **Adroddiad Blynyddol y Swyddog Diogelu Data** | |
| 11.1 | Cyflwynodd y Swyddog Diogelu Data (SDD) ei adroddiad blynyddol, lle yr amlinellodd y canfyddiadau allweddol a'r argymhellion o'i waith fel SDD, a rhoddodd ddiweddariad ar ddatblygiadau a risgiau gyda phrosesu data personol. Esboniodd fod llai o adnoddau yn y tîm wedi cael effaith negyddol ar elfennau o'i raglen waith a bod ymgymryd â gwaith SDD tra'n osgoi gwrthdaro buddiannau wedi dod yn fwyfwy anodd; fodd bynnag, roedd disgwyl y byddai ailstrwythuro arfaethedig Cyfraith a Moeseg yn lliniaru'r materion hynny. | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod Dydd Mawrth 23 a Dydd Mercher 24 Tachwedd 2021**

| | | |
|---|---|---|
| 11.2 | Tynnodd y SDD sylw'r Bwrdd at faterion diogelu data a meysydd o bryder a oedd wedi codi yn ystod y flwyddyn, a'r camau a gymerwyd neu a awgrymwyd i fynd i'r afael â hwy, yn ymwneud ag:<br>• arolygon a chasglu data;<br>• gweithdrefnau a thelerau caffael;<br>• cwblhau Asesiadau Effaith Diogelu Data;<br>• cylch gorchwyl y Grŵp Llywio Digidol; a<br>• rheoli cofnodion. | |
| 11.3 | Yn absenoldeb y CGGC, esboniodd y Prif Weithredwr fod y rheolwyr yn cymeradwyo'r argymhellion a'r cyngor yn adroddiad y SDD.<br>Esboniodd:<br>• y dylai ailstrwythuro Cyfraith a Moeseg ddod i ben yn fuan i liniaru'r problemau gydag adnoddau a'r gwrthdaro buddiannau;<br>• yn yr un modd, dylai ailstrwythuro'r tîm Gwasanaethau Busnes ddarparu adnodd penodol ar gyfer rheoli cofnodion;<br>• roedd gweithredu achrediad Cyber Essentials Plus yn cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd, oherwydd gofynion achredu, ond roedd gwerth hyn yn cael ei gydnabod;<br>• byddai'r Grŵp Llywio Digidol yn hapus i ystyried adolygu eu cylch gorchwyl i gynnwys y SDD; ac<br>• er bod arolygon yn arf pwerus i gasglu data, roedd y rheolwyr yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y defnydd a wneid o arolwg yn briodol ac yn cydymffurfio ac yn datblygu methodoleg a phroses fonitro gadarn. | |
| 11.4 | Bu'r Bwrdd yn trafod:<br>• sut y gellid gwella ymwybyddiaeth staff o ddiogelu data, a gwreiddio cydymffurfiaeth yn y prosesau ar draws y sefydliad, gan nodi bod yr hyfforddiant traws-sefydliadol wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau 2022;<br>• a fyddai'r ailstrwythuro'n darparu adnoddau digonol i sicrhau bod modd bodloni'r galw am gyngor, gan gydnabod ei bod yn anodd rhagweld hyn;<br>• rhaglen y SDD a'r risgiau posibl o ohirio elfennau o'r rhaglen; ac<br>• a ellid ymgorffori argymhellion y SDD mewn proses lywodraethu gwybodaeth ehangach – byddai'r SDD yn trafod â'r CGGC a ellid (a sut i) ystyried hynny fel rhan o adroddiad blynyddol SIRO. | DPO / EDCS |
| 11.5 | Nododd y Bwrdd adroddiad blynyddol y SDD a chymeradwyo ei argymhellion:<br>i. bod ailstrwythuro Cyfraith a Moeseg yn mynd rhagddo'n gyflym a bod ganddo ddigon o adnoddau fel bod gan SDD newydd ddigon o amser, cymorth a gwahaniad dyletswyddau i gyflawni ei rôl statudol heb wrthdaro buddiannau;<br>ii. bod achrediad Cyber Essentials Plus yn cael ei gyflawni, gan gynnwys drwy roi blaenoriaeth iddo yng ngwaith monitro ac adnoddau'r Bwrdd, | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod Dydd Mawrth 23 a Dydd Mercher 24 Tachwedd 2021**

| | | |
|---|---|---|
| | h.y., bod yr Amcangyfrif/atodiad yn cwmpasu’r adnoddau sydd eu hangen;<br>iii. bod Bwrdd y Rhaglen Newid yn adolygu cylch gorchwyl y Grŵp Llywio Digidol i gynnwys ymgysylltu â’r SDD yn unol ag Erthygl 38(1) o GDPR y DU;<br>iv. bod ailstrwythuro'r Gwasanaethau Busnes yn arwain at benodi rheolwr cofnodion ymroddedig â chymwysterau addas. | |
| 11.6 | Fe wnaeth y Bwrdd:<br>• gytuno y byddai materion oedd yn codi o adroddiad y SDD yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fel rhan o'i blymiad dwfn strategol i seiberddiogelwch a llywodraethu gwybodaeth yn ei gyfarfod ym mis Chwefror; a<br>• gofyn bod diweddariadau yn cael eu darparu ar gynnydd yn erbyn yr argymhellion drwy’r olrheiniwr gweithredu neu adroddiad y Prif Weithredwr. | A&RAC<br><br>EDCS |
| **12.** | **Effeithiolrwydd y Bwrdd: Cynllun Gweithredu** | |
| 12.1 | Cyflwynodd Cadeirydd y Bwrdd bapur yn amlinellu'r cynllun gweithredu drafft a ddatblygwyd mewn ymateb i'r argymhellion yn yr adolygiad allanol o effeithiolrwydd y bwrdd. | |
| 12.2 | Adolygodd y Bwrdd y cynllun drafft fesul maes blaenoriaeth.<br><u>Blaenoriaeth 1 (datblygiad y tîm)</u><br>Cytunai’r Aelodau â'r gweithgaredd datblygu arfaethedig, awgrymwyd y dylid cyfeirio at allbynnau’r diwrnod datblygu ym mis Mawrth 2020 a nodwyd y gellid archwilio datblygiad unigolion hefyd.<br><u>Blaenoriaeth 2 (ymgysylltiad y staff)</u><br>Cytunodd yr Aelodau y byddai'r ffocws cychwynnol ar ymgysylltu ar gyfer y strategaeth bum mlynedd; gyda ffocws pellach ar ddatblygu ymgysylltiad aelodau oedd yn gyflogeion.<br>Trafododd yr Aelodau yn fyr:<br>• mentora o chwith fel modd o sefydlu cysylltiadau a dyfnder dealltwriaeth o'r sefydliad;<br>• y posibilrwydd o recordio neu ffrydio cyfarfodydd yn fyw, y byddai’r grŵp llywodraethu yn edrych arno ymhellach; a<br>• sut y gellid casglu safbwyntiau gan arsyllwyr staff yng nghyfarfodydd y Bwrdd.<br><u>Blaenoriaeth 3 (Prosesau’r Bwrdd)</u><br>Cytunai’r aelodau y byddai'r grŵp llywodraethu yn ystyried proses effeithiolrwydd fel rhan o'i waith.<br>Bu’r aelodau yn ystyried yn fyr sut y gallai'r aelod-gyflogeion etholedig ddatblygu perthynas waith gyda phanel staff y TAG - byddai'r aelod-gyflogeion etholedig yn ystyried sut i wneud hynny.<br><u>Blaenoriaeth 4 (ymgysylltiad allanol)</u> | Grŵp Llywodraethu<br><br>AB/AM<br><br>EDCC |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod Dydd Mawrth 23 a Dydd Mercher 24 Tachwedd 2021**

| | | |
|---|---|---|
| | Nododd yr aelodau fod y CGCN yn cynllunio calendr ar gyfer ymgysylltu allanol ac y byddai'n cynnwys y pwyntiau y gallai fod gan aelodau'r Bwrdd rôl ynddynt. | |
| 12.3 | Cadarnhaodd y Bwrdd ei fod yn fodlon ar y cynllun gweithredu drafft a nododd y byddai rhai o'r llinellau amser yn cael eu hymestyn oherwydd natur barhaus y gweithgareddau hynny. | |
| **13.** | **Adrodd ar berfformiad, gan gynnwys yr adroddiad cyllid, cofrestr risg strategol a pherfformiad chwarter dau** | |
| (a) adroddiad ariannol | | |
| 13.1 | Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid bapur yn amlinellu'r sefyllfa ariannol ddiwedd mis Medi. Eglurodd y gallai'r gwarged a ragwelwyd gynyddu ychydig pe na bai swyddi gwag staff yn cael eu llenwi. | |
| 13.2 | Nododd y Bwrdd yr Adroddiad. | |
| (B) cofrestr risg strategol | | |
| 13.4 | Cyflwynodd y CGCN ddiweddariad ar ddatblygiad y gofrestr risg a'r fframwaith sicrwydd, yn dilyn yr adolygiadau risg taflen wag. Amlinellodd y risgiau a oedd yn peri'r pryder mwyaf i'r TAG ac eglurodd y camau lliniaru oedd yn cael eu cymryd. | |
| 13.5 | Trafododd y Bwrdd y risgiau oedd yn ymwneud â:<br>• theithio a chynhaliaeth, ac annog rheolwyr i ystyried a yw'r geiriad yn adlewyrchu'r risg yn gywir;<br>• arolwg staff – mynd i'r afael â'r adroddiad canlyniadau a sylwadau;<br>• darpariaeth archwilio, gan nodi'r risg weddilliol uchel y byddai CGGA yn ei hadolygu ac yn diweddaru'r Cadeirydd y tu allan i'r cyfarfod; a<br>• chapasiti AD, y byddai'r TAG yn ei adolygu i sicrhau bod y risg yn cael ei gynnwys yn llawn. | TAG<br><br>EDAS<br><br>TAG |
| 13.6 | Nododd y Bwrdd y byddai'r gofrestr risg, oedd yn cynnwys fersiwn gynnar o'r fframwaith sicrwydd, yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Rhagfyr. | |
| **14** | **Adolygu'r Flaenraglen Waith** | |
| 14.1 | Amlinellodd y Cadeirydd y cynnig i symud i bedwar cyfarfod Bwrdd strategol a chwe chyfarfod busnes yn ystod 2022-23, a fyddai'n diwallu anghenion busnes ac yn cefnogi ymgysylltu rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. | KD |
| 14.2 | Eglurodd Ysgrifennydd y Bwrdd nad oedd y dyddiadau wedi'u pennu'n derfynol ac y gellid adolygu'r amserlen i gymryd i ystyriaeth faint o aelodau oedd ar gael cyn ei dosbarthu'n fewnol ac i aelodau ar gyfer mewnbwn. Byddai'r aelodau'n dweud p'un a oeddent ar gael wrth Ysgrifennydd y Bwrdd yn dilyn y cyfarfod. | Pawb |
| 14.3 | Nododd y Bwrdd y byddai'r dyddiad arfaethedig ar gyfer cyfarfod mis Mawrth 2023 yn disgyn ar ôl diwedd penodiad y Cadeirydd a chytunwyd | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod Dydd Mawrth 23 a Dydd Mercher 24 Tachwedd 2021**

| | | |
|---|---|---|
| | y dylid dod â'r cyfarfod ym mis Mawrth 2023 ymlaen i hwyluso'r broses o drosglwyddo i'r Cadeirydd newydd. | |
| 14.4 | Yn amodol ar argaeledd a chytundeb ar y dyddiadau, cytunodd y Bwrdd ar y dull gweithredu arfaethedig. | |
| **15** | **Adolygiad o'r cyfarfod** | |
| 15.1 | Wrth adolygu'r cyfarfod, nododd yr aelodau y canlynol:<br>• pwysigrwydd y pynciau trafod strategol ac roedd ganddynt ymdeimlad o roi o'u gorau wrth wrando'n astud, ymgysylltu ac ychwanegu gwerth; a<br>• theimlad cadarnhaol cyffredinol y cyfarfod gydag ymddygiad da i'w weld ar draws timau. | |
| 15.2 | Gwerthfawrogodd yr arsyllwyr<br>• y cyfle i arsylwi a chael cipolwg ar sut mae'r Bwrdd yn gweithredu;<br>• natur agored y trafodaethau a chryfder cyfraniadau'r aelod-gyflogeion etholedig; a'r<br>• mewnwelediad i eitemau, gan gynnwys adroddiad y SDD, oedd yn tynnu sylw at sut y gallai'r sefydliad wella ei ffyrdd o weithio. | |
| **16** | **Unrhyw fater arall (cymerwyd yn breifat)** | |
| 16.1 | Darparodd y CGCN y wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad teithio a chynhaliaeth, yn enwedig y trafodaethau gyda'r undebau llafur ynghylch diwygiadau arfaethedig ar sut y byddai'r cynigion yn berthnasol i'r hyfforddeion. Eglurodd ei bod yn paratoi'r cynigion terfynol yn barod ar gyfer y bleidlais y disgwylid iddi gael ei chynnal cyn y Nadolig. | |
| 16.2 | Nododd y Bwrdd y datblygiadau, ac y byddai'r TAG yn dychwelyd i'r Bwrdd yn dilyn canlyniad y bleidlais i ystyried y camau nesaf. | |
| **17** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf** | |
| 17.1 | 26 a 27 Ionawr 2022 (i'w gadarnhau) | |